# Cyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan

Annwyl Gynghorydd 4 Hydref 2024

Rwyf yn eich galw trwy hyn i fynychu cyfarfod Hybrid* Cyngor Tref Rhuddlan a gynhelir nos Iau, 10 Hydref 2024 am **6.30pm**. Dylai aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno ymuno drwy Zoom roi gwybod i Glerc y Dref erbyn 4pm ar 10 Hydref fel bod modd gwneud y trefniadau angenrheidiol. Mae croeso i aelodau'r cyhoedd ddod i'r cyfarfod yn Hwb Rhuddlan hefyd. **Gellir ymuno drwy Zoom neu ddod i'r cyfarfod yn* ***Hwb Rhuddlan, Clos David Owen, Rhuddlan LL18 2UJ***.

**Agenda**

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Datgan Buddiant * Gweler tudalen 2**
3. **Materion Brys fel y'u Cytunwyd gan y Cadeirydd** – Rhybudd am eitemau a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried fel mater o frys yn unol â'r Rheolau Sefydlog
    a. Ymddiswyddiad y Cynghorydd Robert Williams
4. **Materion yr heddlu** Derbyn adroddiad troseddu
5. **Cofnodion**:
    a. Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024
    b. Cymeradwyo cofnodion unrhyw gyfarfodydd Pwyllgor neu Weithgor a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf
6. **Adroddiad cynnydd ar sail y cofnodion**
7. **Adroddiadau gan:**
    a. Y Maer a'r Dirprwy Faer
    b. Clerc y Dref – gohebiaeth ac adroddiad ar brosiectau
8. **Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir** – derbyn yr adroddiadau
9. **Y Gyllideb a Materion Ariannol**
    a. Derbyn yr adroddiad gwariant, Ebrill – Hydref 2024
    b. Cymeradwyo'r rhestr o daliadau sy'n ddyledus
10. **Cynllunio**
    a. 44/2024/1304/HH Gosod Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer yn MEANDER, FFORDD ABERGELE, RHUDDLAN, SIR DDINBYCH, LL18 5UE.
    b. 44/2024/1314/PF Newid defnydd garej i siop a manwerthu cyffredinol (Dosbarth Defnydd A1) yn ASH MOTORS MARSH ROAD, RHUDDLAN, SIR DDINBYCH, LL18 5UB
11. **Mainc ar lan yr afon** – derbyn diweddariad gan y Cynghorydd Arwel Roberts
12. **Polisi Cronfeydd wrth Gefn Drafft –** adolygu, cytuno a mabwysiadu'r polisi
13. **Materion Cymunedol**

**Rhan 2**. Cau allan y wasg a'r cyhoedd. Yn rhinwedd Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'r wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan o drafodaethau ar y materion canlynol ar y sail y byddai eu datgelu yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**:

- Cyfarfod y cyngor llawn wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau, 14 Tachwedd 2024

***Steve Wilson*** – Clerc y Dref 07775 673706 clerk@rhuddlantowncouncil.gov.uk

***Datgan Buddiant**

**Buddiant personol** – Os oes gennych fuddiant personol yn unrhyw fater yn ymwneud â'ch Cyngor, mae'n rhaid i chi ddatgelu'r buddiant a natur y buddiant cyn cymryd rhan yn unrhyw drafodion cysylltiedig.

**Buddiant rhagfarnus** – Mae'n rhaid i chi ofyn i chi eich hun a fyddai aelod o'r cyhoedd, petai'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol, yn credu bod eich buddiant personol mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o niweidio neu ragfarnu eich barn. Mewn geiriau eraill, rhaid ystyried bod y buddiant yn debygol o niweidio neu amharu ar eich gallu i ddod i benderfyniad er budd y cyhoedd. Rhaid datgan hyn cyn y trafodir yr eitem a bydd disgwyl i chi adael yr ystafell a pheidio â chymryd rhan yn yr eitem.

Yn y ddwy achos uchod, mae angen i chi lenwi'r ffurflen a roddir i chi gan y Clerc a bydd yn ymddangos ar gofrestr buddiannau aelodau ar wefan Cyngor Tref Rhuddlan.